

# Trefn Claddedigaeth y Meirw

## 1. DERBYN Y CORFF I'R EGLWYS

---

*(Adeg y claddu, neu cyn hynny)*

*Gan gyfarfod â'r corff wrth y fynedfa i'r fynwent, neu wrth borth yr eglwys, â'r Gweinidog o'i flaen, tra dywedir neu cenir un neu fwy o'r brawddegau neu'r salmau hyn:*

Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd. Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; a phob un sy'n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth.

**(Ioan 11. 25, 26)**

Myfi a wn fod fy Mhrynwr yn fyw, ac y saif yn y diwedd ar y ddaear: yr hwn a gaf fi i mi fy hun ei weled, a'm llygaid a'i gwelant, ac nid arall. **(Job 19. 25, 27)**

Peidiwch â gadael i ddim gynhyrfu'ch calon. Credwch yn Nuw, a chredwch ynof finnau. Yn nhŷ fy Nhad y mae llawer o drigfannau; pe na byddai felly, a fyddwn i wedi dweud wrthyfch fy mod yn mynd i baratoi lle i chwi? Ac os af a pharatoi lle i chwi, fe ddof yn ôl, a'ch cymryd chwi ataf fy hun, er mwyn i chwithau fod lle'r wyf fi.

**(Ioan 4. 1-3)**

Os byw yr ydym, i'r Arglwydd yr ydym yn byw, ac os marw, i'r Arglwydd yr ydym yn marw. Prun bynnag ai byw ai marw yr ydym, eiddo'r Arglwydd ydym. Oherwydd pwrpas Crist wrth farw a dod yn fyw oedd bod yn Arglwydd ar y meirw a'r byw.

**(Rhufeiniaid 14. 8,9)**

Ni ddygasom ni ddim i'r byd, ac eglur yw na allwn ddwyn dim allan chwaith. Yr Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a ddygodd ymaith; bendigedig fyddo Enw yr Arglwydd.

**(1 Timotheus 6, 7; Job 1. 21)**

Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist! O'i fawr drugaredd, fe barodd ef ein geni ni o'r newydd i obaith bywiol trwy atgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw.

**(1 Pedr 1. 3)**

# The Order for the Burial of the Dead

## 1. THE RECEPTION OF THE BODY INTO CHURCH

---

*(At the time of burial or previously)*

*The Minister, meeting the body at the entrance to the churchyard, or at the church door, goes before it while one or more of these sentences, or of the psalms following, is said or sung.*

I am the resurrection and the life, says the Lord; he who believes in me, though he die, yet shall he live, and whoever lives and believes in me shall never die. **(John 11. 25, 26)**

I know that my Redeemer lives, and at last he will stand upon the earth; whom I shall see for myself, and my eyes shall behold, and not another. **(Job 19. 25, 27)**

Let not your hearts be troubled; you believe in God, believe also in me. In my Father's house are many dwelling-places; if it were not so, would I have told you that I go to prepare a place for you? And when I go and prepare a place for you, I will come again and take you to myself, that where I am you may be also. **(John 14. 1-3)**

If we live, we live to the Lord, and if we die, we die to the Lord; so then, whether we live or whether we die, we are the Lord's. For to this end Christ died and lived again, that he might be Lord both of the dead and of the living. **(Romans 14. 8, 9)**

We brought nothing into the world, and we cannot take anything out of the world. The Lord gave, and the Lord has taken away; blessed be the name of the Lord. **(1 Timothy 6; 7, Job 1. 21)**

Blessed be the God and Father of our Lord Jesus Christ. By his great mercy we have been born anew to a living hope through the resurrection of Jesus Christ from the dead. **(1 Peter 1. 3)**

**SALM 27. 1, 45, 9, 11-14**

Yr Arglwydd yw fy ngoleuni a'm hiachawdwriaeth \* rhag / pwy  
yr / ofnaf?: yr Arglwydd yw nerth fy mywyd \* rhag / pwy / y dych / rynaf?  
Un peth a ddeisyfais i gan yr Arglwydd / hynny a / geisiaf: sef caffael  
trigo yn nhŷ yr Arglwydd holl ddyddiau fy mywyd \* i edrych ar  
brydferthwch yr Arglwydd \* ac i y / mofyn / yn ei / deml.  
Canys yn y dydd blin y'm cuddia o / fewn ei / babell: yn nirgelfa ei  
babell y'm cuddia \* ar / graig y'm / cyfyd / i.  
Na chuddia dy wyneb oddi wrthyf \* na fwrw ymaith dy / was  
mewn / soriant: fy nghymorth fuost \* na ad fi ac na wrthod fi O / Dduw  
fy / iachaw / dwriaeth.  
Dysg i mi dy / ffordd / Arglwydd: ac arwain fi ar hyd llwybrau  
uniondeb \* o / herwydd / fy nge / lynion.  
Na ddyro fi i fyny i ewyllys / fy nge / lynion: canys gau dystion a rhai a  
adroddant drawster \* a / gyfo / dasant · i'm herbyn.  
Diffygiaswn pe na chredaswn weled / daioni · yr / Arglwydd: yn / nhir  
y / rhai / byw.  
Disgwyl wrth yr Arglwydd \* ymwrola ac efe a / nertha · dy / galon:  
disgwyl, / meddaf, / wrth yr / Arglwydd.

**SALM 130**

O'r dyfnder y / llefais / arnat: O / - / Ar / glwydd.  
Arglwydd / clyw fy llefain: ystyried dy glustiau wrth / lef / fy  
ngwe / ddïau.  
Os creffi ar anwi / reddau, / Arglwydd: O / Arglwydd / pwy a / saif?  
Ond y mae / gyda / thi: fa / ddeuant / fel y'th / ofner.  
Disgwyliaf am yr Arglwydd \* / disgwyl · fy / enaid: ac yn ei / air ef / y  
go / beithiaf.  
Fy enaid sydd yn / disgwyl · am yr / Arglwydd: yn fwy nag y mae y  
gwylwyr am y bore \* yn fwy nag y mae y / gwylwyr / am y / bore.  
Disgwylied Israel / am yr / Arglwydd: oherwydd y mae trugaredd gyda'r  
Arglwydd \* ac aml ym / wared / gydag / ef.  
Ac ef a / wared / Israel: oddi wrth ei / holl / anwi / reddau.

**PSALM 27. 1, 4-6, 11-12, 14-17**

The Lord is my light and my salvation; \* whom then / shall I / fear: the Lord is the strength of my life; \* of whom then / shall I / be a- / fraid? One thing have I desired of the Lord / that I / long for: that I may dwell in the house of the Lord / all the / days of · my / life.

To behold the fair beauty / of the / Lord: and to / seek him / in his / temple.

For in the time of trouble he shall hide me / in his / shadow: yea in the secret place of his dwelling shall he hide me, \* and set me up up- / on a / rock of / stone.

O hide not thou thy / face / from me: nor cast thy servant a- / way / in dis- / pleasure.

Thou hast / been my / succour: leave me not neither forsake me, O / God of / my sal- / vation.

Teach me thy / way O / Lord: and lead me in the right / way be- / cause of · mine / enemies.

Deliver me not over into the / will of · mine / adversaries: for there are false witnesses risen up against me, \* and / such as / breathe out / cruelty.

I believe verily to see the goodness / of the / Lord: even in the / land / of the / living.

O wait for the Lord, \* be strong and let thine / heart take / courage: and put thou thy / trust / in the Lord.

**PSALM 130**

Out of the deep have I called unto / thee O / Lord: Lord / hearken / unto · my / voice.

O let thine ears con- / sider / well: the / voice of · my / suppli- / cations.

If thou Lord shouldst mark what is / done a- / miss: O / Lord who / could a- / bide it?

But there is / mercy · with / thee: that / so thou / mayest · be / feared.

I wait for the Lord, \* my / soul doth / wait for him: and in his / word / is my / trust.

My soul doth / wait · for the / Lord: more than watchmen for the morning, \* yea more than / watchmen / for the / morning.

O Israel trust in the Lord, \* for with the / Lord · there is / mercy: and with / him is / plenteous · re- / demption.

And he shall re- / deem Israel: from the / multitude / of his / sins.

*Onis defnyddiwyd yn yr Orymdaith, gellir defnyddio un o'r salmau hyn o flaen y Llith, pan ddygir y corff i'r eglwys y noson cyn y claddu, neu yn lle'r salmau yn Y Gwasanaeth yn yr Eglwys (pan na weinyddir Y Cymun Bendigaid).*

## **2. DARLLENIADAU A GWEDDÏAU AR NOSWYL CLADDEDIGAETH**

---

*Pan ddygir y corff i'r eglwys ar noswyl y claddu, darllenir un o'r llithoedd a geir yn Y Llithoedd.*

*Dywed y Gweinidog:*

Yr Arglwydd a fo gyda chwi;  
**A chyda'th ysbryd dithau.**

Gweddïwn.

Arglwydd, trugarha wrthym.  
**Crist, trugarha wrthym.**  
Arglwydd, trugarha wrthym.

**Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,  
sancteiddier dy enw;  
deled dy deyrnas;  
gwneled dy ewyllys;  
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.  
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.  
A maddau i ni ein dyledion,  
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.  
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;  
eithr gwared ni rhag drwg. Amen.**

*Yn dyweder un neu fwy o'r gweddïau canlynol, a'r Gras.*

Dad pawb oll, gweddïwn arnat dros y rhai a garwn, er eu bod o'n golwg ni. Dyro iddynt dy dangnefedd; llewyrched bythol oleuni arnynt; ac yn dy ddoethineb grasol a'th allu anfeidrol cyflawna ynddynt fwriad daionus dy ewyllys perffaith; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

O Arglwydd Iesu Grist, Mab y Duw byw, a orffwysaist mewn beddrod, a thrwy hynny a sancteiddiaist y bedd i fod yn wely gobaith i'th bobl: gwna i ni ddwys ofidio am ein pechodau a fu'n achos dy ddiodefaint, fel, pan orwedd ein cyrff yn y llwch, y gall ein heneidiau fyw gyda thi sy'n byw ac yn teyrnasu gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, byth heb ddiwedd. **Amen.**

*If not used in the Procession, either of these psalms may be used before the Lesson when the body is brought into church on the eve of the burial, or in place of the psalms in The Service in Church (if the Eucharist is not celebrated).*

## **2. READINGS AND PRAYERS FOR THE EVE OF BURIAL**

---

*When the body is brought into church on the eve of burial, one of the lessons printed in Lessons shall be read.*

*The Minister says:*

The Lord be with you;  
**And with your spirit.**

Let us pray.

Lord, have mercy upon us.  
**Christ, have mercy upon us.**  
Lord, have mercy upon us.

**Our Father, who art in heaven,  
hallowed be thy name;  
thy kingdom come;  
thy will be done;  
on earth as it is in heaven.  
Give us this day our daily bread.  
And forgive us our trespasses,  
as we forgive those who trespass against us.  
And lead us not into temptation;  
but deliver us from evil. Amen.**

*Then shall be said one or more of the prayers following, ending with the Grace.*

Father of all, we pray to thee for those we love, but now no longer see. Grant them thy peace; let light perpetual shine upon them; and in thy loving wisdom and almighty power work in them the good purpose of thy perfect will; through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Lord Jesus Christ, Son of the living God, who did rest in the sepulchre and did thereby sanctify the grave to be a bed of hope to thy people: make us so to abound in sorrow for our sins which were the cause of thy passion, that, when our bodies lie in the dust, our souls may live with thee; who lives and reigns with the Father and the Holy Spirit, one God, world without end. **Amen.**

Caniatâ, O Arglwydd, megis y'n bedyddir ni i farwolaeth dy fendigedig Fab ein Hiachawdwr Iesu Grist, fod inni felly, trwy farwhau'n wastad ein serchiadau llygredig, gael ein claddu gydag ef; a thrwy'r bedd a phorth angau fynd ymlaen i'n hatgyfodiad llawen; trwy ei haeddiannau ef a fu farw, ac a gladdwyd, ac a gyfododd drachefn er ein mwyn, dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân, a fo gyda ni oll byth bythoedd. **Amen.**

*Gellir hefyd ddefnyddio'r ddwy adran flaenorol o'r Drefn hon, neu unrhyw ran ohonynt mewn gwasanaeth yn y tŷ lle mae'n arfer lleol.*

### 3. Y GWASANAETH YN YR EGLWYS

---

*(os gweinyddir y Cymun Bendigaid)*

*Pan fydd pawb wedi ymgynnull, gall y Gweinidog ddweud:*

Yr ydym wedi dod ynghyd i gyflwyno ein **brawd E.** i ddwylo Duw hollalluog, ein Tad nefol. Yn wyneb angau mae gan Gristionogion sail sicr i obaith a hyder, ie, i lawenydd, am fod yr Arglwydd Iesu Grist, a fu byw a marw fel dyn, wedi atgyfodi, gan orchfygu angau, ac yn byw byth. Ynddo ef, gan hynny, y mae ei bobl yn etifeddion bywyd tragwyddol, a chan gredu hyn, yr ydym yn gosod ein holl ymddiried yn ei ddaioni a'i drugaredd.

*Dechreuir yn awr drefn y Cymun Bendigaid.*

*Gellir defnyddio un neu'r ddau o'r Colectau hyn:*

O Dduw, Crëwr a Gwardedwr pawb sy'n credu: dyro i'th **was E.** a'r holl fyddloniaid ymadawedig ddoniau anchwiliadwy dioddefaint dy Fab, fel yn nydd ei ymddangosiad yr amlygir hwy'n blant i ti; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, byth heb ddiwedd. **Amen.**

Grant, O Lord, that as we are baptised into the death of thy blessed Son our Saviour Jesus Christ, so by continual mortifying our corrupt affections we may be buried with him; and that through the grave, and gate of death, we may pass to our joyful resurrection; for his merits, who died, and was buried, and rose again for us, thy Son Jesus Christ our Lord. **Amen.**

The grace of our Lord Jesus Christ, and the love of God, and the fellowship of the Holy Spirit, be with us all evermore. **Amen.**

*The two preceding sections of this Order, or any part of them, may also be used for prayers in the house, where this is the local custom.*

### 3. THE SERVICE IN CHURCH

---

*(if it be the Eucharist)*

*When all are assembled, the Minister may say:*

We have come together to commend our **brother N.** into the hands of Almighty God our heavenly Father. In the presence of death, Christians have sure ground for hope and confidence, and even for joy, because the Lord Jesus Christ, who shared our human life and death, was raised again triumphant and lives for evermore. In him his people find eternal life, and, in this faith, we put our whole trust in his goodness and mercy.

*The order for the Holy Eucharist now begins.*

*One or both of the following Collects shall be used:*

O God, the maker and Redeemer of all believers: grant to thy servant **N.** and all the faithful departed the unsearchable benefits of thy Son's passion; that, in the day of his appearing, they may be manifested as thy children; through the same Jesus Christ thy Son our Lord, who lives and reigns with thee and the Holy Spirit, one God, world without end. **Amen.**



O Dduw, a roddaist dy annwyl Fab i farwolaeth y groes er ein hiachawdwriaeth, a'n gwaredu oddi wrth allu'r gelyn trwy ei atgyfodiad gogoneddus: dyro inni farw beunydd i bechod, fel y byddwn byw byth gydag ef yn llawenydd ei atgyfodiad; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

*Darlener un o'r llithoedd, ac eithrio'r Efengylau, a geir yn Y Llithoedd.*

*Gellir defnyddio'r salm neu'r anthemau canlynol:*

### **SALM 116. 3-8**

**Gofidion angau a'm cylchynasant \* a gofidiau uffern / a'm dal- / iasant:  
ing a / blinder / a / gefais.**

**Yna y gelwais ar / enw yr / Arglwydd: Atolwg / Arglwydd / gwared · fy / enaid.**

**Graslon yw yr / Arglwydd · a / chyfiawn: a thosturiol / yw ein / Duw / ni.  
Yr Arglwydd sydd yn cadw y rhai / anni / chellgar: tlodais ac e / fe / a'm  
ha / chubodd.**

**Dychwel O fy enaid / i'th or / ffwysfa: canys yr / Arglwydd · fu / dda / wrthyt.**

**Oherwydd i ti waredu fy / enaid · oddi wrth / angau: fy llygaid oddi  
wrth / ddagrau · a'm / traed rhag / llithro.**

### **ANTHEMAU'R PASG: 3-8**

**Nid yw Crist, \* wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw, \* yn / marw / mwyach:  
nid yw marwolaeth yn arglwydd / iaethu / arno / mwyach.**

**Canys fel y bu farw \* unwaith · i / bechod: ac fel y mae'n byw, \* / byw  
y / mae i / Dduw.**

**Felly chwithau hefyd, \* cyfrifwch eich hunain yn / feirw · i / bechod: eithr  
yn fyw i Dduw yng / Nghrist / Iesu · ein / Harglwydd.**

**Crist a gyfodwyd oddi / wrth y / meirw: ac a wnaed yn / flaenffrwyth · y /  
rhai a / hunodd.**

**Canys gan fod mar / wolaeth · trwy / ddyn: trwy ddyn hefyd y  
mae / atgy / fodiad · y / meirw.**

**Oblegid megis yn Adda y mae / pawb yn / marw: felly hefyd  
yng / Nghrist · y byw / heir / pawb.**

O God, who for our redemption gave thine only-begotten Son to the death of the cross, and has delivered us from the power of our enemy by his glorious resurrection: grant us so to die daily unto sin, that we may evermore live with him in the joy of his resurrection; through the same Jesus Christ our Lord.  
**Amen.**

*One of the lessons from those printed in Lessons shall be read.*

*This should not be taken from the Gospels.*

*The following psalm or anthems may be used:*

### **PSALM 116. 3-8**

The cords of death compassed me round about, \* and the snares of the grave laid / hold up- / on me: I suffered / sore dis- / tress and / sorrow. Then I called upon the / name · of the / Lord: 'O Lord I be- / seech · thee de- / liver · my / soul.'

Gracious is the / Lord and / righteous: yea our / God is / full · of com- / passion.

The Lord pre- / serveth · the / simple: I was brought / low, / and he / saved me.

Turn again then unto thy rest / O my / soul: for the Lord hath / dealt so / loving · ly / with thee.

For thou hast saved my / soul from / death: mine eyes from / tears · and my / feet from / falling.

### **EASTER ANTHEMS 3-8**

Christ being raised from the dead / dieth · no / more: death hath no / more do- / minion / over him.

For in that he died, \* he died unto / sin / once: but in that he liveth, \* he / liveth / unto / God.

Likewise reckon ye also yourselves to be dead indeed / unto / sin: but alive unto God, through / Jesus / Christ our / Lord.

Christ is / risen · from the dead: and become the / first fruits · of / them that / slept.

For since by / man came / death: by man came also the resur- / rection / of the / dead.

For as in Adam / all / die: even so in Christ shall / all be / made a- / live.

*Darlener yn Efengyl un o'r rhai a geir yn Y Llithoedd.*

*Ar ôl y Cymun, dyweder:*

Rhoddodd ymborth i'r rhai a'i hofna ef;  
**Fe gofia ei gyfamod yn dragwydd.**

Hollalluog Dduw, ein Tad nefol, a roddaist i ni dy Fab Iesu Grist yn fara'r bywyd tragwyddol: pâr i ni oll sy'n gyfrannog o'i Gorff a'i Waed gael ein cyfodi y dydd diwethaf ynddo ef, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, byth heb ddiwedd. **Amen.**

*Parheir y Gwasanaeth yn yr Eglwys gyda'r Cyflwyniant a'r Diweddgllo.*

## **4. Y GWASANAETH YN YR EGLWYS**

---

*(pan na weinyddir y Cymun Bendigaid)*

*Gellir defnyddio'r Gwasanaeth hwn wrth y bedd neu yng nghapel yr amlosgfa neu'r gladdfa.*

*Pan fydd pawb wedi ymgynnull, gall y Gweinidog ddweud:*

Yr ydym wedi dod ynghyd i gyflwyno ein **brawd E.** i ddwylo Duw hollalluog, ein Tad nefol. Yn wyneb angau mae gan Gristionogion sail sicr i obaith a hyder, ie, i lawenydd, am fod yr Arglwydd Iesu Grist, a fu byw a marw fel dyn, wedi atgyfodi, gan orchfygu angau, ac yn byw byth. Ynddo ef, gan hynny, y mae ei bobl yn etifeddion bywyd tragwyddol, a chan gredu hyn, yr ydym yn gosod ein holl ymddiried yn ei ddaioni a'i drugaredd.

*Dyweder neu caner un neu fwy o'r salmau canlynol. Gellir dweud neu ganu yr antiffon hwn o flaen ac ar ôl unrhyw salm neu nifer o salmau.*

**Iachawdwr y byd a'n prynodd trwy dy Groes a'th werthfawr waed:  
achub a chymorth ni, O Arglwydd.**

*A Gospel taken from those printed in Lessons shall be read.*

*After the Communion the following shall be said:*

He hath given food unto them that fear him;  
**He shall ever be mindful of his covenant.**

Almighty God, our heavenly Father, who has given unto us thy Son Jesus Christ to be the bread of life eternal; grant that all we who are partakers of his body and blood may at the last day be raised up in him; who lives and reigns with thee in the unity of the Holy Spirit, one God, world without end. **Amen.**

*The Service in Church continues with the Commendation and Conclusion.*

## **4. THE SERVICE IN CHURCH**

---

*(if the Eucharist is not celebrated)*

*This service may be used at the graveside or in the chapel of the crematorium or cemetery.*

*When all are assembled, the Minister may say:*

We have come together to commend our **brother N.** into the hands of Almighty God our heavenly Father. In the presence of death, Christians have sure ground for hope and confidence, and even for joy, because the Lord Jesus Christ, who shared our human life and death, was raised again triumphant and lives for evermore. In him his people find eternal life, and, in this faith, we put our whole trust in his goodness and mercy.

*One or more of the following psalms shall be said or sung. Before and after any psalm or group of psalms this antiphon may be said or sung.*

**O Saviour of the world, who by thy cross and precious blood hast redeemed us: save us and help us, we humbly beseech thee, O Lord.**

## SALM 23

Yr Arglwydd / yw fy Mugail: ni / bydd / eisiau / arnaf.

Efe a wna i mi orwedd mewn por / feydd / gwelltog: efe a'm tywys ger / llaw y / dyfroedd / tawel.

Efe a / ddychwel · fy enaid: efe a'm harwain ar hyd llwybrau cyf / iawnder · er / mwyn ei / enw.

le pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angau nid / ofnaf / niwed: canys yr wyt ti gyda mi \* dy wi / alen · a'th / ffon a'm · cy / surant.

Ti a arlwyi ford ger fy mron yng ngwydd fy / ngwrthwy / nebwy: iraist fy mhen ag / olew; · fy / ffiol · sydd / lawn.

Daioni a thrugaredd yn ddiau a'm canlynant holl / ddyddiau · fy / mywyd: a phreswyliaf yn nhŷ yr / Arglwydd / yn dra / gywydd.

## SALM 90. 1-6, 10, 12-17

Ti Arglwydd fuost yn bre / swylfa · i / ni: ym / mhob / cen- / hedlaeth.

Cyn gwneuthur y mynyddoedd \* a llunio ohonot y / ddaear · a'r / byd: ti hefyd wyt Dduw o dragwy / ddoldeb · hyd / drag / wyddoldeb.

Trôl / ddyn i / ddinistr: a dywedi, Dy / chwelwch / feibion / dynion.

Canys mil o flynyddoedd ydynt yn dy olwg / di fel / doe: wedi yr êl heibio ac fel / gwylia / dwriaeth / nos.

Dygi hwynt ymaith megis â llifeiriant \* y / maent fel / hun: y bore y maent fel llys / ieuyn / a ne / widir.

Y bore y blo / deua · ac y / tyf: prynhawn y torrir ef / ymaith / ac y / gwywa.

Yn nyddiau ein blynyddoedd y mae deng mlynedd a thrigain \* ac os o gryfder y cyrhaeddir / pedwar · ugain / mlynedd: eto eu nerth sydd boen a blinder \* canys ebrwydd y derfydd a / ni · a e / hedwn / ymaith.

Dysg i ni felly / gyfrif · ein / dyddiau: fel y dygom ein / calon / i ddoe / thineb.

Dychwel / Arglwydd · pa / hyd?: ac edifar / ha o / ran dy / weision.

Diwalla ni yn / fore / â'th dru / garedd: fel y gorfoleddom / ac y llawenychom / dros ein / holl / ddyddiau.

Llawenha ni yn ôl y dyddiau y cys / tuddiaist / ni: a'r bly- / nyddoedd · y / gwelsom / ddrygyd.

Gweler dy waith tuag / at dy / weision: a'th o / goniant · tuag / at eu / plant hwy.

A bydded prydferthwch yr Arglwydd ein / Duw / arnom ni: a threfna weithred ein dwylo ynom ni \* ie / trefna / waith ein / dwylo.

## PSALM 23

The Lord / is my / shepherd: therefore / can I / lack / nothing.  
He shall make me to lie down in / green / pastures: and lead me forth  
be- / side the / waters · of / comfort.

He shall re- / fresh my / soul: and bring me forth in the right way / for  
his / name's / sake.

Yea, though I walk through the darkest valley, \* I will / fear no / evil: for  
thou art with me, \* thy / rod · and thy / staff / comfort me.

Thou shalt prepare a table before me, \* in the presence of / them  
that / trouble me: thou hast anointed my head with oil, \* and my / cup /  
shall be / full.

Yea thy loving-kindness and mercy shall follow me \* all the / days  
of · my / life: and I will dwell in the / house · of the / Lord for / ever.

## PSALM 90. 1-6, 10, 12-17

Lord thou hast / been our / refuge: from one gener- / ation / to  
an- / other.

Before the mountains were brought forth, or ever the earth and  
the / world were / made: thou art God from ever- / lasting · and / world  
with · out / end.

Thou turnest man / back · to the / dust; yea thou sayest \* 'Re- / turn  
ye / children · of / men.'

For a thousand years in thy sight / are · but as / yesterday:  
even as it / were a / day · that is / past.

As a night-watch that cometh quickly to an end thou / scatter · est /  
them: they are even as a / dream and / fade a- / way.

They are like the grass, which in the / morning · is / green: but in the /  
evening · is / dried · up and / withered.

The days of our age are threescore years and ten; \* and though men be  
so strong that they come to / fourscore / years: yet is their span but  
labour and sorrow, \* so soon passeth it a- / way and / we are / gone.

So teach us to / number · our / days: that we may ap- / ply our / hearts ·  
unto / wisdom.

Turn thee again O / Lord, and / tarry not: be / gracious / unto · thy / ser-  
vants.

O satisfy us in the morning with thy / loving- / kindness: so shall we  
rejoice and be glad / all the / days of · our life.

Make us glad, \* according to the number of the days wherein thou / hast  
af- / flicted us: and of the years where- / in · we have suffered · ad- / ver-  
sity.

Shew thy / servants · thy work: and thy / glory / unto · their / children.  
And may the grace of the Lord our God / be up- / on us: prosper thou  
the work of our hands, \* O / prosper / thou our / handy-work.

## SALM 103. 1-4, 13-18

Fy enaid, ben / dithia · yr / Arglwydd: a chwbl sydd ynof ei / enw / sanctaidd / ef.

Fy enaid, ben / dithia · yr / Arglwydd: ac nac anghofia ei / holl / ddoniau / ef.

Yr hwn sydd yn maddau dy / holl · anwi / reddau: yr hwn sydd yn ia / chau dy / holl / lesgedd.

Yr hwn sydd yn gwaredu dy / fywyd · o / ddistryw: yr hwn sydd yn dy goroni â thru / garedd · ac / â thosturi.

Fel y tosturia / tad · wrth ei / blant: felly y tosturia yr Arglwydd wrth y / rhai a'i hofnant / ef.

Canys efe a edwyn ein / defnydd / ni: cofia / mai / llwch / ydym.

Dyddiau dyn sydd / fel glas / welltyn: megis blodeuyn y maes / felly · y blo / deua · e / fe.

Canys y gwynt â drosto \* ac ni bydd / mwy / o / hono: a'i le nid edwyn / ddim o / hono · ef / mwy.

Ond trugaredd yr Arglwydd sydd o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb \* at y rhai a'i / hofnant / ef: a'i gyf / iawnder · i / blant eu / plant;

I'r sawl a gadwant ei gyfamod / ef: ac a gofiant / ei orch- / mynion · i'w / gwneuthur.

## SALM 121

Dyrchafaf fy llygaid / i'r my / nyddoedd: o'r / lle y / daw / fy / nghymorth.

Fy nghymorth a ddaw oddi / wrth yr / Arglwydd: yr hwn a / wnaeth / nefoedd · a / daear.

Ni ad efe i'th / droed / lithro: ac / ni / huna · dy / geidwad.

Wele / ni / huna: ac ni / chwsg / ceidwad / Israel.

Yr Arglwydd / yw dy / geidwad: yr Arglwydd yw dy / gysgod / ar dy · dde / heulaw.

Ni'th dery yr / haul y / dydd: na'r / lleuad / y / nos.

Yr Arglwydd a'th geidw / rhag pob / drwg: e / fe a / geidw · dy / enaid.

Yr Arglwydd a geidw dy fynediad / a'th ddy / fodiad: o'r / pryd hwn / hyd yn · dra / gywydd.

**PSALM 103. 1-4, 13-18**

**Praise the Lord / O my / soul: and all that is within me / praise  
his / holy / name.**

**Praise the Lord / O my / soul: and for- / get not / all his / benefits,  
Who forgiveth / all thy / sin: and / healeth / all · thine in- / firmities,  
Who saveth thy / life · from the pit: and crowneth thee with / mercy · and  
loving-kindness.**

**Like as a father hath compassion up- / on his / children: so hath the  
Lord compassion up- / on / them that / fear him.**

**For he knoweth where- / of · we are / made: he remembereth / that we /  
are but / dust.**

**The days of man / are · but as / grass: he flourisheth / as a / flower · of  
the / field;**

**For as soon as the wind goeth over it / it is / gone: and the place there- /  
of shall / know it · no / more.**

**But the merciful goodness of the Lord endureth for ever and ever upon  
/ them that / fear him: and his righteousness up- / on / children's / chil-  
dren,**

**Even upon such as / keep his / covenant: and think upon / his com /  
mandments · to / do them.**

**PSALM 121**

**I will lift up mine eyes / unto · the / hills: from / whence / cometh · my /  
help?**

**My help cometh / from the / Lord: who hath / made / heaven · and /  
earth.**

**He will not suffer thy / foot · to be / moved: and he that / keepeth · thee /  
will not / sleep.**

**Behold he that / keepeth / Israel: shall / neither / slumber · nor / sleep.**

**The Lord him- / self · is thy / keeper: the Lord upon thy right / hand  
shall / give thee / shade;**

**The sun shall not / strike · thee by / day: neither / shall the / moon by /  
night.**

**The Lord shall preserve thee from / all / evil: yea it is / he · that shall /  
keep thee / safe.**

**The Lord shall preserve thy going out and thy / coming / in: from this  
time / forth for / ever- / more.**



## SALM 139. 1-12

Ar / glwydd / chwiliaist: ac / adna / buost / fi.

Ti a adwaenost fy eis / teddiad · a'm cy / fodiad: de / elli · fy / meddwl · o / bell.

Amgylchyni fy / llwybr · a'm gor / weddfa: a hysbys / wyt · yn fy / holl / ffyrdd.

Canys nid oes / air · ar fy / nhafod: ond wele Arglwydd / ti a'i / gwyddost / oll.

Amgylchynaist fi yn / ôl · ac ym / laen: a go / sodaist · dy / law / arnaf.

Dyma wybodaeth ry / ryfedd · i / mi: uchel yw \* ni / fedraf / oddi / wrthi.

I ba le yr af oddi / wrth dy / ysbryd? ac i ba / le y / ffoaf · o'th / wydd?

Os dringaf i'r nefoedd / yno · yr wyt / ti: os cyweiriaf fy ngwely yn / uffern / wele di / yno.

Pe cymerwn a / denydd · y / wawr: a phe trigwn / yn ei- / thafoedd · y / môr:

Yno hefyd y'm ty / wysai · dy / law: ac y'm / daliai / dy dde- / heulaw.

Pe dywedwn \* Diau y ty / wyllwch · a'm / cuddiai: yna y byddai y / nos · yn o / leuni · o'm / hamgylch.

Ni thywylla y tywyllwch rhagot ti \* ond y nos a o / leua · fel / dydd: un ffunud yw ty / wyllwch · a go / leuni · i / ti.

*Darllenir un o'r llithoedd a geir yn Y Llithoedd. Yna gellir canu emyn.*

## 5. Y GWEDDÏAU

---

*Dywed y Gweinidog:*

Yr Arglwydd a fo gyda chwi;

**A chyda'th ysbryd dithau.**

Gweddïwn.

\* Arglwydd, trugarha wrthym.

**Crist, trugarha wrthym.**

Arglwydd, trugarha wrthym.

## PSALM 139. 1-11

O Lord thou hast searched me / out and / known me: thou knowest my  
down-sitting and mine up-rising, \* thou understandest my / thoughts /  
from a- / far.

Thou art ever about my path \* and the places / where I / rest: and art  
ac- / quainted · with / all my / ways.

For lo there is not a / word · in my / mouth: but thou O Lord / knowest ·  
it / alto- / gether.

Thou hast protected me be- / hind · and be- / fore: and hast / covered ·  
me / with thine / hand.

§ Such knowledge is too / wonder · ful / for me: so excellent that  
I / cannot · at- / tain / unto it.

Whither shall I go / from thy / spirit: or whither shall I / flee / from  
thy / presence?

If I climb up into heaven / thou art / there: if I make my bed in the  
grave / thou art / there / also.

If I fly on the / wings · of the morning: or alight in the / utter- · most /  
parts · of the / west,

Even there shall / thy hand / lead me: and / thy right / hand shall / hold  
me.

If I say \* 'Surely the / darkness · shall / cover me: and my / day  
be / turned to / night',

The darkness is no darkness with thee, \* but the night is as / clear · as  
the / day: the darkness and the / light are / both a- / like.

*One of the lessons printed in Lessons shall be read. Then a hymn may be sung.*

## 5. THE PRAYERS

---

*The Minister says:*

The Lord be with you;  
**And with your spirit.**

Let us pray.

\* Lord, have mercy upon us.  
**Christ, have mercy upon us.**  
Lord, have mercy upon us.

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,  
sancteiddier dy enw;  
deled dy deyrnas;  
gwneler dy ewyllys;  
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.  
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.  
A maddau i ni ein dyledion,  
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.  
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;  
eithr gwared ni rhag drwg. **Amen.**

*\* Gellir defnyddio'r Litani Leiaf a Gweddî'r Arglwydd naill ai yn y fan hon, neu yn y lle a nodir wedi'r Traddodiant.*

Ti, Grist, yw Brenin y gogoniant;  
**Ti yw tragwyddol Fab y Tad.**

Pan orchfygaist holl nerth angau;  
**Agoraist deyrnas nef i bawb sy'n credu.**

Ti sydd yn eistedd ar ddeheulaw Duw yng ngogoniant y Tad;  
**Yr ym yn credu mai tydi a ddaw yn Farnwr arnom.**

Gan hynny yr atolygwn i ti gynorthwyo dy weision;  
**Y rhai a brynaist â'th werthfawr waed.**

Pâr iddynt gael eu cyfrif gyda'th saint;  
**Yn y gogoniant tragwyddol.**

*Gall y Gweinidog ychwanegu un neu ragor o'r gweddïau hyn:*

Bydd rasol, Arglwydd, wrth ein **brawd** ymadawedig, fel, wedi **ei ryddhau** oddi wrth rwymau pechod a marwolaeth, y perffeithir **ef** trwy dy ras a'i **dderbyn** i'r bywyd tragwyddol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Hollalluog Dduw, a ddatguddiaist mai dy annwyl Fab yw'r atgyfodiad a'r bywyd: gweddiwn arnat ein cyfodi ni o angau pechod i fywyd cyfiawnder, fel, wedi ymado â'r bywyd hwn, y gorffwyswn ynddo ef, megis y mae ein gobaiith am ein **brawd hwn**, a derbyn yn y diwedd y fendith: Da was da a ffyddlon; dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd. Caniatâ hyn, O Dad trugarog, trwy Iesu Grist, ein Cyfryngwr a'n Gwaredwr. **Amen.**

**Our Father, who art in heaven,  
hallowed be thy name;  
thy kingdom come;  
thy will be done;  
on earth as it is in heaven.  
Give us this day our daily bread.  
And forgive us our trespasses,  
as we forgive those who trespass against us.  
And lead us not into temptation;  
but deliver us from evil. Amen.**

*\* The Lesser Litany and Lord's Prayer may be used either at this point or at the point indicated after the Committal.*

Thou art the King of glory, O Christ;  
**Thou art the everlasting Son of the Father.**

When thou hadst overcome the sharpness of death;  
**Thou didst open the kingdom of heaven to all believers.**

Thou sittest at the right hand of God, in the glory of the Father;  
**We believe that thou shalt come to be our Judge.**

We therefore pray thee, help thy servants;  
**Whom thou hast redeemed with thy precious blood.**

Make them to be numbered with thy saints;  
**In glory everlasting.**

*The Minister may add one or more of these prayers:*

Be gracious, Lord, to this **our brother** departed, that, loosed from the bonds of sin and death, **he** may be perfected by thy grace and enter into life everlasting: through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Almighty God, who has revealed thy only-begotten Son as the resurrection and the life: raise us, we pray thee, from the death of sin to the life of righteousness, that, when we depart this life, we may rest in him, as we hope our **brother** does, and at the last may receive the blessing: Well done, good and faithful servant; enter thou into the joy of thy Lord. Grant this, O merciful Father, through Jesus Christ, our Mediator and Redeemer. **Amen.**

Dad nefol, a roddaist i ni yn dy Fab Iesu Grist wir ffydd a gobaith diogel:  
cymorth ni i fyw fel y rhai sy'n credu ac yn ymddiried yng nghymun y saint,  
maddeuant pechodau, a'r atgyfodiad i fywyd tragwyddol, a chryfha ynom y  
ffydd a'r gobaith hwn holl ddyddiau ein bywyd; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.  
**Amen.**

Hollalluog Dduw, Tad pob trugaredd a rhoddwr pob cysur: bydd rasol wrth y  
rhai sy'n galaru, fel trwy fwrw pob gofal arnat ti, y cânt brofi diddanwch dy  
gariad; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Diolchwn i ti, O Dduw,  
am ddatguddio dy gariad a'th ras  
yn y rhai sydd wedi byw yn ôl dy ewyllys  
ac sy'n awr yn gorffwys.  
Gofynnwn am i'w bywyd a'u hesiampl  
barhau i'n calonogi a'n harwain  
holl dyddiau ein bywyd;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Arglwydd trugarog,  
yn dy gariad rhoddaist inni dy Fab i orchfygu angau  
ac i ddwyn bywyd tragwyddol i'th bobl.  
Cysura dy weision yn eu profedigaeth,  
a chryfha ein ffydd a'n gobaith yn dy Fab,  
ein Gwardwr Iesu Grist. **Amen.**

Dad nefol,  
ti sy'n noddfa a nerth i ni.  
Gofynnwn iti ein cynorthwyo'r awr hon;  
cryfha ein ffydd,  
dilea ein hofnau,  
adnewyddfa ein gobaith.  
Arweinied yr Ysbryd Glân ni  
trwy dywyllwch ein tristwch  
i oleuni dy gariad tragwyddol  
yn Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

*Parheir y gwasanaeth gyda'r Cyflwyniant a'r Diweddgllo canlynol.*

Heavenly Father, who in thy Son Jesus Christ has given us a true faith and a sure hope: help us, we pray thee, to live as those who believe and trust in the communion of saints, the forgiveness of sins, and the resurrection to life everlasting; and strengthen this faith and hope in us all the days of our life: through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Almighty God, Father of all mercies and giver of all comfort: deal graciously, we pray thee, with those who mourn, that casting every care on thee, they may know the consolation of thy love; through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

We thank you, Lord God,  
for the grace you gave  
to those who lived according to your will  
and are now at rest.  
We pray that their good example  
may encourage and guide us  
all the days of our life;  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

God of all mercy,  
in love you gave us your Son  
to conquer death  
and restore eternal life to your people.  
Comfort your servants in their sorrow,  
and strengthen our faith and hope in your Son,  
our Saviour Jesus Christ. **Amen.**

Heavenly Father,  
you are our refuge and strength.  
Help and comfort us today;  
increase our faith,  
dispel our fears,  
revive our hope.  
May the Holy Spirit lift us  
from the darkness of our grief  
to the light of your presence:  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

*The service continues with the Commendation and Conclusion.*

## 6. Y CYFLWYNIANT

---

*Dywed y Gweinidog, yn sefyll:*

Cyflwynwn ein **brawd E.** i ddwylo Duw, ein Crëwr a'n Gwaredwr.

O Dduw, ein Tad nefol, sydd trwy dy allu mawr wedi ein cynysgaeddu â bywyd, ac yn dy drugaredd wedi rhoddi inni fywyd newydd yng Nghrist Iesu: cyflwynwn i'th ofal tosturiol **E. ein brawd**, trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd, a fu farw ac a gyfododd drachefn i'n hachub, ac sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi mewn gogoniant byth bythoedd. **Amen.**

## 7. Y DIWEDDGLO

---

Gorffwys dyro, Grist, i'th weision gyda phawb o'th saint,  
lle nid oes gofid mwy na phoen,  
na gorthymderau blin a gwae,  
ond bywyd yn dragwyddol.

Tydi dy hun yn unig sydd anfarwol,  
Creawdwr a Chynhaliwr dyn;  
Marwolion ydym ni o bridd y ddaear,  
ac i'r pridd y dychwelwn,  
canys felly yr ordeiniaist,  
pan greaist ni, gan ddywedyd:  
Pridd wyt ti, ac i'r pridd y dychweli.  
I'r llwch y disgyn pawb ohonom ni;  
Dan wyl uwch y bedd dyrchafwn gân:  
Alelwia, Alelwia, Alelwia.

*Neu*

Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân, a fo gyda ni oll byth bythoedd. **Amen.**

*Neu*

Dyro **iddo** O Arglwydd, orffwys tragwyddol;  
**A llewyrched goleuni gwastadol arno.**

*Neu*

Awn ymaith mewn tangnefedd;  
**Yn enw Crist. Amen.**

## 6. THE COMMENDATION

---

*The Minister, standing, says:*

Let us commend our **brother N.** into the hands of God, our Maker and Redeemer.

O God our heavenly Father, who by thy mighty power has given us life, and by thy loving-kindness has bestowed upon us new life in Christ Jesus: we commend to thy merciful keeping **N. our brother**, through Jesus Christ thy Son our Lord, who died and rose again to save us, and now lives and reigns with thee in glory for ever. **Amen.**

## 7. THE CONCLUSION

---

Give rest, O Christ, to thy servant with thy saints;  
Where sorrow and pain are no more,  
Neither sighing but life everlasting.

Thou only art immortal,  
The Creator and Maker of man;  
And we are mortal, formed of the earth,  
And unto earth shall we return:  
For so thou didst ordain  
When thou createdst me, saying,  
Dust thou art, and unto dust shalt thou return.  
All we go down to the dust;  
And, weeping o'er the grave, we make our song:  
Alleluya, alleluya, alleluya.

*Or*

The grace of our Lord Jesus Christ, and the love of God, and the fellowship of the Holy Spirit, be with us all evermore. **Amen.**

*Or*

Grant **him**, O Lord, eternal rest;  
**And let light perpetual shine upon him.**

*Or*

Let us go forth in peace;  
**In the name of Christ. Amen.**



## 8. Y TRADDODIANT

---

*Os bydd y tir heb ei gysegru, dywed yr Offeiriad yn union o flaen y Traddodiad y weddi a geir yn Bendithio'r Bedd. [Tud. 20]*

*Yn y lle y rhoddir y corff i'w gladdu dywed y Gweinidog:*

Yng nghanol bywyd yr ydym mewn angau; gan bwy y mae i ni geisio ymwared, ond gennyt ti, O Arglwydd, sydd am ein pechodau'n gyfiawn yn ddiellon?

Er hynny, Arglwydd Dduw sancteiddiaf, Arglwydd galluocaf, O lachawdwr sanctaidd a thrugarocaf, na ollwng ni i chwerw boenau angau tragwyddol.

Ti adwaenost, Arglwydd, ddirgelion ein calonnau; na thro dy glustiau trugarog oddi wrth ein gweddïau; eithr arbed ni, O Arglwydd sancteiddiaf, O Dduw galluocaf, O lachawdwr sanctaidd a thrugarog, tydi deilyngaf Farnwr tragwyddol, na ad i ni yn ein hawr olaf, er unrhyw boenau angau, syrthio oddi wrthyt.

*Os na ddefnyddiwyd y Cyflwyniant eisoes, defnyddier ef yma.*

*Yna dywed y Gweinidog:*

Yn ffydd Crist, a chan gredu fod enaid ein **brawd hwn** yn nwylo Duw, yr ydym yn traddodi **ei gorff ef**

*(ar lan y bedd)* i'r ddaear, pridd i'r pridd, lludw i'r lludw, llwch i'r llwch,

*(yn yr amlogfa)* i'w amlogi,

*(ar y môr)* i'r dwfn,

mewn gwir a diogel obaith o'r atgyfodiad i fywyd tragwyddol, trwy ein Harglwydd Iesu Grist, a newidia ein corff gwael ni, fel y bydd yn gyffelyb i'w gorff gogoneddus ef, trwy'r nerth sy'n ei alluogi i ddarostwng pob peth iddo ei hun.

## 8. THE COMMITTAL

---

*If the ground in which the burial is to take place is not consecrated, the Priest says, immediately before the Committal, the prayer provided for the Blessing of the Grave. [Page 20]*

*At the place of the committal of the body, the Minister says:*

In the midst of life we are in death; of whom may we seek for succour but of thee, O Lord, who for our sins art justly displeased?

Yet, O Lord God most holy, O Lord most mighty, O holy and most merciful Saviour, deliver us from the bitterness of eternal death.

Thou knowest, Lord, the secrets of our hearts; shut not thy merciful ears to our prayer; but spare us, Lord most holy, O God most mighty, O holy and merciful Saviour, thou most worthy Judge eternal, suffer us not at our last hour for any pains of death to fall from thee.

*If the Commendation has not already been used, it shall be used here.*

*Then the Minister says:*

In the faith of Christ, and believing that our **brother** is in the hands of God, we commit **his** body.

*(at the grave)* to the ground, earth to earth, ashes to ashes, dust to dust,

*(at cremation)* to be cremated,

*(at sea)* to the deep,

in sure and certain hope of the resurrection to eternal life, through our Lord Jesus Christ; who shall change our corruptible body, that it may be like unto his glorious body, according to the mighty working whereby he is able to subdue all things to himself.

Mi glywais lais o'r nef yn dywedyd, Gwyn eu byd y meirw sydd yn marw yn yr Arglwydd o hyn allan. Ie, Gwyn eu byd, medd yr Ysbryd: cânt orffwys oddi wrth eu llafur.

*Yna, os na ddywedwyd hyn eisoes yn y Gweddïau, ychwaneger:*

Arglwydd, trugarha wrthym.

**Crist, trugarha wrthym.**

Arglwydd, trugarha wrthym.

**Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,  
sancteiddier dy enw;  
deled dy deyrnas;  
gwneled dy ewyllys;  
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.  
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.  
A maddau i ni ein dyledion,  
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.  
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;  
eithr gwared ni rhag drwg. Amen.**

*Gellir defnyddio yma rai o'r Gweddïau a geir o'r blaen, os na ddefnyddiwyd hwy'n barod.*

## 9. Y DIWEDDGLO

---

Arhosed cymorth Duw gyda ni'n wastad a, thrwy ei drugaredd, gorffwysed eneidiau'r ffyddloniaid mewn tangnefedd. **Amen.**

*Neu* Bydded i Dduw, ffynhonnell gobaith, eich llenwi â phob llawenydd a thangnefedd wrth i chwi arfer eich ffydd, nes eich bod, trwy nerth yr Ysbryd Glân, yn gorlifo â gobaith. Oblegid ohono ef a thrwyddo ef ac yndo ef y mae pob peth. Iddo ef y bo'r gogoniant am byth. **Amen.**

*Neu* Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân, a fo gyda ni oll byth bythoedd. **Amen.**

*Neu* Bydded i Dduw tangnefedd, yr hwn a ddug yn ôl oddi wrth y meirw ein Harglwydd Iesu, Fugail mawr y defaid, trwy waed y cyfamod tragwyddol, eich cyflawni â phob daioni, er mwyn ichwi wneud ei ewyllys ef; a bydded iddo lunio ynom yr hyn sydd gymeradwy ganddo, trwy Iesu Grist, i'r hwn y byddo'r gogoniant yn oes oesoedd. **Amen.**

I heard a voice from heaven saying unto me, Blessed are the dead who die in the Lord from henceforth; Even so, says the Spirit, that they may rest from their labours.

*If it has not already been used in the Prayers, shall be added:*

Lord, have mercy upon us.

**Christ, have mercy upon us.**

Lord, have mercy upon us.

**Our Father, who art in heaven,  
hallowed be thy name;  
thy kingdom come;  
thy will be done;  
on earth as it is in heaven.  
Give us this day our daily bread.  
And forgive us our trespasses,  
as we forgive those who trespass against us.  
And lead us not into temptation;  
but deliver us from evil. Amen.**

*Any others of the Prayers previously set out which have not been used already may be used here.*

## **9. THE CONCLUSION**

---

May God's help remain with us always, and may the souls of the faithful, through the mercy of God, rest in peace. **Amen.**

*Or* May the God of hope fill you with all joy and peace in believing, so that by the power of the Holy Spirit you may abound in hope. For from him and through him and in him are all things. To him be glory for ever. **Amen.**

*Or* The grace of our Lord Jesus Christ, and the love of God, and the fellowship of the Holy Spirit, be with us all evermore. **Amen.**

*Or* Now may the God of peace who brought again from the dead our Lord Jesus, the great shepherd of the sheep, by the blood of the eternal covenant, equip you with everything good that you may do his will, working in you that which is pleasing in his sight, through Jesus Christ; to whom be glory for ever and ever. **Amen.**

Neu Bydded i Dduw yn ei gariad a'i drugaredd diderfyn ddwyn yr Eglwys gyfan, y byw a'r meirw yn yr Arglwydd Iesu, i atgyfodiad llawen a chyflawniad ei deyrnas dragwyddol. **Amen.**

*NODIAD. Gellir defnyddio Y Gwasanaeth yn yr Eglwys, ar wahân i'r Cyflwyniant, fel Gwasanaeth Coffa. Dylid defnyddio un o'r ffurfiau Diweddglo sy'n dilyn y Cyflwyniant i ddiweddu'r gwasanaeth.*

*Os bydd pregeth, fe ddaw ar ôl y Llith, neu, os Y Cymun Bendigaid fydd Y Gwasanaeth yn yr Eglwys, fe ddaw ar ôl yr Efengyl.*

*Mae Trefn Claddu Llwyth wedi Amlosgiad i'w chael ar ôl Trefn Claddedigaeth Plentyn.*

## **10. TREFN CLADEDIGAETH PLENTYN**

---

*Gan gyfarfod â'r corff a mynd o'i flaen i'r eglwys neu at lan y bedd, dywed y Gweinidog un neu fwy o'r brawddegau hyn:*

Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd. Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; a phob un sy'n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth.

**(Ioan 11. 25, 26)**

Myfi yw'r bugail da; yr wyf yn adnabod fy nefaid, a'm defaid yn f'adnabod i.

**(Ioan 10. 14)**

Gwyn eu byd y rhai pur eu calon, oherwydd cânt hwy weld Duw.

**(Mathew 5. 8)**

Peidiwch â gadael i ddim gynhyrfu'ch calon. Credwch yn Nuw, a chredwch ynof finnau. Yn nhŷ fy Nhad y mae llawer o drigfannau; pe na byddai felly, a fyddwn i wedi dweud wrthyhych fy mod yn mynd i baratoi lle i chwi? Ac os af a pharatoi lle i chwi, fe ddof yn ôl, a'ch cymryd chwi ataf fy hun, er mwyn i chwithau fod lle'r wyf fi.

**(Ioan 14. 1-3)**

Gyfeillion annwyl, yn awr yr ydym yn blant Duw, ac nid amlygwyd eto byth a fyddwn. Yr ydym yn gwybod, pan amlygir hynny, y byddwn yn debyg iddo, oherwydd cawn ei weld ef fel y mae.

**(I Ioan 3. 2)**

Os byw yr ydym, i'r Arglwydd yr ydym yn byw, ac os marw, i'r Arglwydd yr ydym yn marw. Prun bynnag ai byw ai marw yr ydym, eiddo'r Arglwydd ydym. Oherwydd pwrpas Crist wrth farw a dod yn fyw oedd bod yn Arglwydd ar y meirw a'r byw.

**(Rhufeiniaid 14. 8, 9)**

Or May God in his infinite love and mercy bring the whole Church, living and departed in the Lord Jesus, to a joyful resurrection and the fulfilment of his eternal kingdom. **Amen.**

*NOTE. The Service in the Church, excluding the Commendation, may be used as a Memorial Service. One of the Conclusions which follow the Commendation should be used to end the service.*

*If a sermon is to be preached, it shall follow the Lesson, or, if The Service in Church be a celebration of the Eucharist, it shall follow the Gospel.*

*The Order for the Burial of Ashes after Cremation is to be found after the Order for the Burial of a Child.*

## **10. THE ORDER FOR THE BURIAL OF A CHILD**

---

*The Minister, meeting the body and going before it, either into the church or towards the grave, says one or more of these sentences:*

I am the resurrection and the life, says the Lord; he who believes in me, though he may die, yet shall he live, and whoever lives and believes in me shall never die. **(John 11. 25, 26)**

I am the good shepherd: I know my own and my own know me. **(John 10. 14)**

Blessed are the pure in heart: for they shall see God. **(Matthew 5. 8)**

Let not your hearts be troubled; you believe in God, believe also in me. In my Father's house are many dwelling-places; if it were not so, would I have told you that I go to prepare a place for you? And when I go and prepare a place for you, I will come again and will take you to myself, that where I am you may be also. **(John 14. 1-3)**

Beloved, we are God's children now; it does not yet appear what we shall be, but we know that when he appears we shall be like him, for we shall see him as he is. **(I John 3. 2)**

If we live, we live to the Lord, and if we die, we die to the Lord; so then, whether we live or whether we die, we are the Lord's. For to this end Christ died and lived again, that he might be Lord both of the dead and of the living. **(Romans 14. 8, 9)**

*Yn yr eglwys gellir yn awr weinyddu'r Cymun Bendigaid.*

*Gellir defnyddio Mathew 18. 1-5, 10 fel Efengyl.*

*Dilynir y Cymun Bendigaid gan y Cyflwyniant.*

*Os na weinyddir y Cymun Bendigaid, parheir y gwasanaeth fel a ganlyn:*

## **SALM 23**

**Yr Arglwydd / yw fy Mugail: ni / bydd / eisiau / arnaf.**

**Efe a wna i mi orwedd mewn por / feydd / gwelltog: efe a'm tywys ger / llaw y / dyfroedd / tawel.**

**Efe a / ddychwel · fy enaid: efe a'm harwain ar hyd llwybrau cyf / iawn-der · er / mwyn ei / enw.**

**le pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angau nid / ofnaf / niwed: canys yr wyt ti gyda mi \* dy wi / alen · a'th / ffon a'm · cy / surant.**

**Ti a arlwyi ford ger fy mron yng ngŵydd fy / ngwrthwy / nebwy: iraiſt fy mhen ag / olew; · fy / ffiol · sydd / lawn.**

**Daioni a thrugaredd yn ddiau a'm canlynant holl / ddyddiau · fy / mywyd: a phreswyliaf yn nhŷ yr / Arglwydd / yn dra / gwywyd.**

## **MATHEW 18. 1-5 a 10**

Yr amser hwnnw daeth y disgyblion at Iesu a gofyn, "Pwy sydd fwyaf yn nheyrnas nefoedd?" Galwodd Iesu blentyn ato, a'i osod yn eu canol hwy, a dywedodd, "Yn wir, 'rwy'n dweud wrthy ch, heb gymryd eich troi a dod fel plant, nid ewch fyth i mewn i deyrnas nefoedd. Pwy bynnag, felly, fydd yn ei ddarostwng ei hun i fod fel y plentyn hwn, dyma'r un sydd fwyaf yn nheyrnas nefoedd. A phwy bynnag sy'n derbyn un plentyn fel hwn yn fy enw i, y mae'n fy nerbyn i. Gwylwch rhag i chwi ddirmygu un o'r rhai bychain hyn; oherwydd 'rwy'n dweud wrthy ch fod eu hangylion hwy yn y nefoedd bob amser yn edrych ar wyneb fy Nhad sydd yn y nefoedd."

*Gellir canu emyn.*

## **11. Y GWEDDĪAU**

---

Yr Arglwydd a fo gyda chwi;

**A chyda'th ysbryd dithau.**

Gweddïwn.

\*Arglwydd, trugarha wrthym.

**Crist, trugarha wrthym.**

Arglwydd, trugarha wrthym.

*In church, the Eucharist may now be celebrated.*

*Matthew 18. 1-5, 10 may be used as the Gospel.*

*The Eucharist shall be followed by the Commendation.*

*If the Eucharist is not celebrated, the service continues as follows:*

## **PSALM 23**

**The Lord / is my / shepherd: therefore / can I / lack / nothing.**

**He shall make me to lie down in / green / pastures: and lead me forth  
be- / side the / waters · of / comfort.**

**He shall re- / fresh my / soul: and bring me forth in the right way / for  
his / name's / sake.**

**Yea, though I walk through the darkest valley, \* I will / fear no / evil: for  
thou art with me, \* thy / rod · and thy / staff / comfort me.**

**Thou shalt prepare a table before me, \* in the presence of / them  
that / trouble me: thou hast anointed my head with oil, \* and my / cup /  
shall be / full.**

**Yea thy loving-kindness and mercy shall follow me \* all the / days of ·  
my / life: and I will dwell in the / house · of the / Lord for / ever.**

## **MATTHEW 18. 1-5, 10**

At that time the disciples came to Jesus, saying, "Who is the greatest in the kingdom of heaven?" And calling to him a child, he put him in the midst of them, and said, "Truly, I say to you, unless you turn and become like children, you will never enter the kingdom of heaven. Whoever humbles himself like this child, he is the greatest in the kingdom of heaven. Whoever receives one such child in my name receives me. See that you do not despise one of these little ones; for I tell you that in heaven their angels always behold the face of my Father who is in heaven."

*A hymn may be sung.*

## **11. THE PRAYERS**

---

The Lord be with you;  
**And with your spirit.**

Let us pray.

\* Lord, have mercy upon us.

**Christ, have mercy upon us.**

Lord, have mercy upon us.



Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,  
sancteiddier dy enw;  
deled dy deyrnas;  
gwneled dy ewyllys;  
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.  
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.  
A maddau i ni ein dyledion,  
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.  
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;  
eithr gwared ni rhag drwg. **Amen.**

Hollalluog Dduw, ein Tad nefol, a addewaist i ni trwy dy Fab Iesu Grist fywyd tragwyddol: dyro inni gredu'n ddiysgog fod y plentyn hwn yn ddiogel yng ngofal dy gariad tragwyddol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd sy'n byw ac yn teyrnasu gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, byth heb ddiwedd. **Amen.**

*Gellir defnyddio rhai o'r Gweddïau a geir o'r blaen naill ai yma neu ar ôl y Traddodiant yn ôl dewis y Gweinidog.*

## 12. Y CYFLWYNIANT

---

I ti, O Dduw sanctaidd a Thad cariadlon, y cyflwynwn dy blentyn **E.**, a gweddïwn y bydd i ni yn dy amser di dy hun lawenhau **gydag ef** yn dy deyrnas dragwyddol; trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd. **Amen.**

*\* Gellir defnyddio'r Litani Leiaf a Gweddï'r Arglwydd naill ai yma neu ar ôl y Traddodiant.*

## 13. Y TRADDODIANT

---

*Os bydd y tir heb ei gysegru, dywed yr Offeiriad yn union o flaen y Traddodiant y weddi a geir yn Bendithio'r Bedd.*

*Yn y lle y rhoddir y corff i'w gladdu dywed y Gweinidog:*

Fel y tosturia tad wrth ei blant: felly y tosturia yr Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant ef. Canys efe a edwyn ein defnydd ni: cofia mai llwch ydym. Dyddiau dyn sydd fel glaswelltyn: megis blodeuyn y maes, felly y blodeua efe. Canys y gwynt a â drosto, ac ni bydd mwy ohono: a'i le nid edwyn ddim ohono ef mwy. Ond trugaredd yr Arglwydd sydd o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb ar y rhai a'i hofnant ef: a'i gyfiawnder i blant eu plant.

**Our Father, who art in heaven,  
hallowed be thy name;  
thy kingdom come;  
thy will be done;  
on earth as it is in heaven.  
Give us this day our daily bread.  
And forgive us our trespasses,  
as we forgive those who trespass against us.  
And lead us not into temptation;  
but deliver us from evil. Amen.**

Almighty God, our heavenly Father, who through thy Son Jesus Christ has promised us eternal life: grant us steadfastly to believe that this child is safe in the protection of thy eternal love; through the same Jesus Christ our Lord, who lives and reigns with thee and the Holy Spirit, one God, world without end. **Amen.**

*Other prayers, from among those previously provided, may be said at the Minister's discretion, either here or after the Committal.*

## **12. THE COMMENDATION**

---

To thee, O holy God and loving Father, we commend thy child **N.**, praying that in thine own good time we may rejoice with **him** in thy eternal kingdom; through Jesus Christ thy Son our Lord. **Amen.**

*\* The Lesser Litany and Lord's Prayer may be used either here or after the Committal.*

## **13. THE COMMITTAL**

---

*If the ground in which the burial is to take place is not consecrated, the Priest says, immediately before the Committal, the prayer provided for the Blessing of the Grave.*

*At the place of the committal of the body, the Minister says:*

Like as a father hath compassion upon his children: so hath the Lord compassion upon them that fear him. For he knoweth whereof we are made: he remembereth that we are but dust. The days of man are but as grass: he flourisheth as a flower of the field; For as soon as the wind goeth over it, it is gone: and the place thereof shall know it no more. But the merciful goodness of the Lord endureth for ever and ever upon him that fear him: and his righteousness upon children's children.

Yn ffydd Crist, a chan gredu fod enaid y plentyn hwn yn nwylo Duw,  
cyflwynwn **ei gorff**

*(ar lan y bedd)* i'r ddaear, pridd i'r pridd, lludw i'r lludw, llwch i'r llwch,

*(yn yr amlogfa)* i'w amlogi,

*(ar y môr)* i'r dwfn,

mewn gwir a diogel obaith o'r atgyfodiad i fywyd tragwyddol, trwy ein  
Harglwydd Iesu Grist, a newidia ein corff gwael ni, fel y bydd yn gyffelyb i'w  
gorff gogoneddus ef, trwy nerth ei allu ef i ddarostwng pob peth iddo ei hun.

*Yna, os na ddywedwyd hyn eisoes yn y Gweddïau, ychwaneger:*

Arglwydd, trugarha wrthym.

**Crist, trugarha wrthym.**

Arglwydd, trugarha wrthym.

**Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,  
sancteiddier dy enw;  
deled dy deyrnas;  
gwneler dy ewyllys;  
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.  
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.  
A maddau i ni ein dyledion,  
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.  
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;  
eithr gwared ni rhag drwg. Amen.**

*Gellir defnyddio yma rai o'r Gweddïau a geir o'r blaen, os na ddefnyddiwyd hwy'n barod.*

In the faith of Christ, and believing that this child is in the hands of God, we commit **his** body.

*(at the grave)* to the ground, earth to earth, ashes to ashes, dust to dust,

*(at cremation)* to be cremated,

*(at sea)* to the deep,

in sure and certain hope of the resurrection to eternal life, through our Lord Jesus Christ; who shall change our corruptible body, that it may be like unto his glorious body, according to the mighty working thereby he is able to subdue all things to himself.

*If it has not already been used in the Prayers, shall be added:*

Lord, have mercy upon us.

**Christ, have mercy upon us.**

Lord, have mercy upon us.

**Our Father, who art in heaven,  
hallowed be thy name;  
thy kingdom come;  
thy will be done;  
on earth as it is in heaven.  
Give us this day our daily bread.  
And forgive us our trespasses,  
as we forgive those who trespass against us.  
And lead us not into temptation;  
but deliver us from evil. Amen.**

*Any others of the Prayers previously provided which have not been used already may be used here.*

## 14. Y DIWEDDGLO

---

Iddo ef, sydd â'r gallu ganddo i'ch cadw rhag syrthio, a'ch gosod yn ddi-fai a gorfoleddus gerbron ei ogoniant, iddo ef, yr unig Dduw, ein Gwaredwr, trwy Iesu Grist ein Harglwydd, y byddo gogoniant a mawrhydi, gallu ac awdurdod, cyn yr oesoedd, ac yn awr, ac yn oes oesoedd. **Amen.** (Jwdas 24, 25)

## 15. CLADDU LLWCH WEDI AMLOSGIAD

---

*Pan fydd llwch wedi amlosgiad i'w gladdu mewn tir sydd wedi ei gysegru gellir amlosgi heb unrhyw wasanaeth ffurfiol. Yna defnyddier ffurf briodol y Traddodiant i gladdu'r llwch.*

*Gellir defnyddio'r Gwasanaeth yn yr Eglwys naill ai o flaen yr amlosgiad neu ar ei ôl.*

*Dylid claddu llwch Cristionogion mewn tir sydd wedi ei gysegru, oddieithr pan gleddir yn y môr. Ni chaniateir i glerig yn yr Eglwys yng Nghymru gymryd rhan mewn gwasgaru llwch, ac ni all ychwaith ganiatáu i lwch gael ei wasgaru mewn unrhyw fynwent dan ei ofal.*

*Pan fydd llwch i'w gladdu, a'r Traddodiant wedi ei ddefnyddio, gall y Gweinidog ddefnyddio'n gyntaf Y Gwasanaeth yn yr Eglwys ynghyd ag unrhyw rai o'r Gweddïau.*

*Yn y lle y bydd y claddu dywed y Gweinidog:*

Gan gredu fod ein **brawd** yn gorffwys yng Nghrist, a chan lawenhau yng nghymun y saint, yr ydym yn traddodi ei **llwch** i'r ddaear mewn gwir a diogel oraith o'r atgyfodiad i fywyd tragwyddol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

*Yna, os na wnaed hyn eisoes, fe ddywedir:*

Arglwydd, trugarha wrthym.

**Crist, trugarha wrthym.**

Arglwydd, trugarha wrthym.

## 14. THE CONCLUSION

---

Now to him who is able to keep us from falling and to present us without blemish before the presence of his glory with rejoicing, to the only God, our Saviour, through Jesus Christ our Lord, be glory, majesty, dominion, and authority, before all time and now and for ever. **Amen.** (Jude 24, 25)

## 15. THE BURIAL OF ASHES AFTER CREMATION

---

*When cremated remains are to be buried in consecrated ground, cremation may take place without any formal service. In this case the form of Committal shall be used at the burial of the cremated remains.*

*The Service in Church may either precede or follow the cremation.*

*The ashes of Christians should be buried in consecrated ground, except where burial is at sea. No clergy of the Church in Wales may take part in the scattering of ashes, nor may they permit ashes to be scattered in any churchyard under their control.*

*When ashes are to be buried and the Committal has been used at the Crematorium, the Minister may first use The Service in Church, with any of the Prayers.*

*At the place of burial, the Minister says:*

Believing that our **brother** is at rest in Christ, and rejoicing in the communion of saints, we commit **his** ashes to the ground, in sure and certain hope of the resurrection to eternal life; through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

*Then, if it has not already been used, shall be added:*

Lord, have mercy upon us.

**Christ, have mercy upon us.**

Lord, have mercy upon us.

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,  
sancteiddier dy enw;  
deled dy deyrnas;  
gwneler dy ewyllys;  
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.  
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.  
A maddau i ni ein dyledion,  
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.  
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;  
eithr gwared ni rhag drwg. **Amen.**

*Gellir defnyddio yma rai o'r Gweddïau a geir o'r blaen os na ddefnyddiwyd hwy'n barod.*

## 16. Y DIWEDDGLO

---

I Frenin tragwyddoldeb, yr anfarwol a'r anweledig a'r unig Dduw, y byddo'r anrhydedd a'r gogoniant yn oes oesoedd. **Amen.**

## 17. BENDITHIO'R BEDD

---

*Os bydd y tir heb ei gysegru, defnyddier y weddi hon cyn y Traddodiant.*

O Dduw, Tad ein Harglwydd Iesu Grist, bendithia'r bedd hwn yn orffwysfa i gorff dy **was**; trwy dy Fab bendigaidd, yr atgyfodiad a'r bywyd, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, byth heb ddiwedd. **Amen.**

## 18. Y LLITHOEDD

---

### DOETHINEB SOLOMON 3. 1-9

Eithr y mae eneidiau y rhai cyfiawn yn llaw Duw; ac ni chyffwrdd cystudd â hwynt. Y rhai angall oedd yn tybied eu bod hwy yn meirw; a drwg y cyfrifid eu diwedd hwynt, a'u mynediad oddi wrthym ni yn ddinistr: eithr y maent hwy mewn heddwch. Oblegid er eu cystuddio hwy yng ngolwg dynion, y mae eu gobaith hwy yn llawn tragwyddoldeb. A lle y ceryddwyd hwy ychydig, hwy a gânt lawer o fudd: oblegid Duw a'u profodd hwynt, ac a'u cafodd yn addas iddo ei hun. Efe a'u profodd hwynt fel aur yn y ffwrn, ac a'u derbyniodd fel aberth llosg. Ac yn amser eu gofwy hwy a ddisgleiriant, ac a redant i mewn ac allan, fel gwreichion mewn sofr. Hwy a farnant genhedloedd, ac a lywodraethant bobloedd; a'u Harglwydd hwy a deyrnasa byth. Y rhai a ymddiriedant ynddo ef a ddeallant y gwirionedd; a'r rhai ffyddlon mewn cariad a arhosant gydag ef: oblegid gras a thrugaredd sydd i'w saint ef, ac efe a ofala dros ei etholedigion.

**Our Father, who art in heaven,  
hallowed be thy name;  
thy kingdom come;  
thy will be done;  
on earth as it is in heaven.  
Give us this day our daily bread.  
And forgive us our trespasses,  
as we forgive those who trespass against us.  
And lead us not into temptation;  
but deliver us from evil. Amen.**

*Any other of the Prayers previously provided which have not been used already may be used here.*

## **16. THE CONCLUSION**

---

To the King eternal, immortal, invisible, the only God, be honour and glory for ever and ever. **Amen.**

## **17. THE BLESSING OF THE GRAVE**

---

*This prayer shall be used before the Committal when burial takes place in unconsecrated ground.*

O God, the Father of our Lord Jesus Christ, bless this grave to be the resting-place of the body of thy servant; through the same thy blessed Son, who is the resurrection and the life, and who lives and reigns with thee and the Holy Spirit, one God, world without end. **Amen.**

## **18. LESSONS**

---

### **WISDOM OF SOLOMON 3. 1-9**

But the souls of the righteous are in the hand of God, and no torment will ever touch them. In the eyes of the foolish they seemed to have died, and their departure was thought to be an affliction, and their going from us to be their destruction; but they are at peace. For though in the sight of men they were punished, their hope is full of immortality. Having been disciplined a little, they will receive great good, because God tested them and found them worthy of himself; like gold in the furnace he tried them, and like a sacrificial burnt offering he accepted them. In the time of their visitation they will shine forth, and will run like sparks through the stubble. They will govern nations and rule over peoples, and the Lord will reign over them for ever. Those who trust in him will understand truth, and the faithful will abide with him in love, because grace and mercy are upon his elect, and he watches over his holy ones.



## **IOAN 5. 24-29 a 6. 37-40**

Dywedodd Iesu wrth ei ddisgyblion, “Yn wir, yn wir, ’rwy’n dweud wrthyich fod y sawl sy’n gwrandio ar fy ngair i ac yn credu’r hwn a’m hanfonodd i yn meddu ar fywyd tragwyddol. Nid yw’n dod dan gondemniad; i’r gwrthwyneb, y mae wedi croesi o farwolaeth i fywyd. Yn wir, yn wir, ’rwy’n dweud wrthyich fod amser yn dod, yn wir y mae yma eisoes, pan fydd y meirw yn clywed llais Mab duw, a’r rhai sy’n clywed yn cael bywyd. Oherwydd fel y mae gan y Tad fywyd ynddo ef ei hun, felly hefyd rhoddodd i’r Mab gael bywyd ynddo ef ei hun. Rhoddodd iddo hefyd awdurdod i weinyddu barn, am mai Mab y Dyn yw ef. Peidiwch â rhyfeddu at hyn, oherwydd y mae amser yn dod pan fydd pawb sydd yn eu beddau yn clywed ei lais ef ac yn dod allan; bydd y rhai a wnaeth ddaioni yn codi i fywyd, a’r rhai a wnaeth ddrygioni yn codi i farn.”

“Bydd pob un y mae’r Tad yn ei roi i mi yn dod ataf fi, ac ni fwriaf allan byth mo’r sawl sy’n dod ataf fi. Oherwydd yr wyf wedi disgyrn o’r nef nid i wneud fy ewyllys fy hun ond ewyllys yr hwn a’m hanfonodd i. Ac ewyllys yr hwn a’m hanfonodd i yw hyn: nad wyf i golli neb o’r rhai y mae ef wedi eu rhoi i mi, ond fy mod i’w hatgyfodi yn y dydd olaf. Oherwydd ewyllys fy Nhad yw hyn: fod pob un sy’n gweld y Mab ac yn credu ynddo i gael bywyd tragwyddol. A byddaf fi’n ei atgyfodi ef yn y dydd olaf.”

## **IOAN 6. 53-58**

Dywedodd Iesu wrth yr Iddewon, “Yn wir, yn wir, ’rwy’n dweud wrthyich, oni fwytechwch gnawd Mab y Dyn ac yfed ei waed, ni bydd gennyich fywyd ynoch. Y mae gan yr hwn sy’n bwyta fy nghnawd i ac yn yfed fy ngwaed i fywyd tragwyddol yn ei feddiant, a byddaf fi’n ei atgyfodi ef yn y dydd olaf. Oherwydd fy nghnawd i yw’r gwir fwyd, a’m gwaed i yw’r wir ddiod. Y mae’r hwn sy’n bwyta fy nghnawd i ac yn yfed fy ngwaed i yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau. Y Tad byw a’m hanfonodd i, ac yr wyf fi’n byw oherwydd y Tad; felly’n union bydd hwnnw sy’n fy mwyta i yn byw o’m herwydd innau. Dyma’r bara a ddisgynnodd o’r nef. Nid yw hwn fel y bara a fwytaodd y tadau; buont hwy farw. Caiff yr hwn sy’n bwyta’r bara hwn fyw am byth.”

## **JOHN 5. 24-29 and 6. 37-40**

Jesus said to his disciples, “Truly, truly, I say to you, he who hears my word and believes him who sent me, has eternal life; he does not come into judgement, but has passed from death to life. Truly, truly, I say to you, the hour is coming, and now is, when the dead will hear the voice of the Son of God, and those who hear will live. For as the Father has life in himself, so he has granted the Son also to have life in himself, and has given him authority to execute judgement, because he is the Son of man. Do not marvel at this: for the hour is coming when all who are in the tombs will hear his voice and come forth, those who have done good, to the resurrection of life, and those who have done evil, to the resurrection of judgement.”

“All that the Father gives me will come to me; and him who comes to me I will not cast out. For I have come down from heaven, not to do my own will, but the will of him who sent me; and this is the will of him who sent me, that I should lose nothing of all that he has given me, but raise it up at the last day. For this is the will of my Father, that every one who sees the Son and believes in him should have eternal life; and I will raise him up at the last day.”

## **JOHN 6. 53-58**

Jesus said to the Jews, “Truly, truly, I say to you, unless you eat the flesh of the Son of man and drink his blood, you have no life in you; he who eats my flesh and drinks my blood has eternal life, and I will raise him up at the last day. For my flesh is food indeed, and my blood is drink indeed. He who eats my flesh and drinks my blood abides in me, and I in him. As the living Father sent me, and I live because of the Father, so he who eats me will live because of me. This is the bread which came down from heaven, not such as the fathers ate and died; he who eats this bread will live for ever.”

## **IOAN 11. 21-27**

Dywedodd Martha wrth Iesu, "Pe buasit ti yma, Syr, ni buasai fy mrawd wedi marw. A hyd yn oed yn awr, mi wn y rhydd Duw i ti beth bynnag a ofynni ganddo." Dywedodd Iesu wrtho, "Fe atgyfoda dy frawd." "Mi wn," meddai Martha wrtho, "y bydd yn atgyfodi yn yr atgyfodiad ar y dydd olaf." Dywedodd Iesu wrthi, "Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd. Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; a phob un sy'n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth. A wyt ti'n credu hyn?" "Ydwyf, Arglwydd," atebodd hithau, "yr wyf fi'n credu mai tydi yw'r Meseia, Mab Duw, yr Un sy'n dod i'r byd."

## **RHUFENIAID 8. 31-39**

Os yw Duw trosom, pwy sydd i'n herbyn? Nid arbedodd Duw ei Fab ei hun, ond ei draddodi i farwolaeth trosom ni oll. Ac os rhoddodd ei Fab, sut y gall beidio â rhoi pob peth i ni gydag ef? Pwy sydd i ddwyn cyhuddiad yn erbyn etholedigion Duw? Ai Duw, ac yntau'r un sy'n eu dyfarnu yn ddiueuog? Pwy sydd yn ein collfarnu? Ai Crist Iesu, ac yntau'r un a fu farw, yn hytrach, a gyfodwyd, yr un sydd ar ddeheulaw Duw, yr un sydd yn ymbil trosom? Pwy a'n gwahana ni oddi wrth gariad Crist? Ai gorthrymder, neu ing, neu erlid, neu newyn, neu noethni, neu berygl, neu gleddyf? Hyn yn wir yw ein rhan, fel y mae'n ysgrifenedig: "Er dy fwyn di, fe'n rhoddir i farwolaeth ar hyd y dydd, fe'n cyfrifir fel defaid i'w lladd." Ond yn y pethau hyn i gyd yr ydym yn ennill buddugoliaeth lwyr trwy'r hwn a'n carodd ni. Yr wyf yn gwbl sicr na all nac angau nac einioes, nac angylion na thywysogaethau, na'r presennol na'r dyfodol, na grymustersau nac uchelderau na dyfnderau, na dim arall a grewyd, ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.

## **1 CORINTHIAID 15. 3-20**

Yn y lle cyntaf, traddodais i chwi yr hyn a dderbyniais: i Grist farw dros ein pechodau ni, yn ôl yr Ysgrythurau; iddo gael ei gladdu, a'i gyfodi y trydydd dydd, yn ôl yr Ysgrythurau; ac iddo ymddangos i Cephas, ac yna i'r Deuddeg. Yna, ymddangosodd i fwy na phum cant o'r brodyr ar unwaith - ac y mae'r mwyafrif ohonynt yn fyw hyd heddiw, er fod rhai wedi huno. Yna, ymddangosodd i lango, yna i'r holl apostolion. Yn ddiwethaf oll, fe ymddangosodd i minnau hefyd, fel i ryw erthyl o apostol. Oherwydd y lleiaf o'r apostolion wyf fi, un nad wyf deilwng i'm galw yn apostol, gan i mi erlid eglwys Duw. Ond trwy ras Duw yr wyf yr hyn ydwyf, ac ni bu ei ras ef tuag ataf yn ofer. Yn wir, mi lafuriais yn helaethach na hwy i gyd - eto nid myfi, ond gras Duw, oedd gyda mi. Ond prun bynnag ai myfi ai hwy, felly yr ydym yn pregethu, ac felly y credasoch chwithau.

## **JOHN 11. 21-27**

Martha said to Jesus, "Lord, if you had been here, my brother would not have died. And even now I know that whatever you ask from God, God will give you." Jesus said to her, "Your brother will rise again." Martha said to him, "I know that he will rise again in the resurrection at the last day." Jesus said to her, "I am the resurrection and the life; he who lives and believes in me, though he die, yet shall he live, and whoever lives and believes in me shall never die. Do you believe this?" She said to him, "Yes, Lord; I believe that you are the Christ, the Son of God, he who is coming into the world."

## **ROMANS 8. 31-39**

If God is for us, who is against us? He who did not spare his own Son but gave him up for us all, will he not also give us all things with him? Who shall bring any charge against God's elect? It is God who justifies; who is to condemn? Is it Christ Jesus, who died, yes, who was raised from the dead, who is at the right hand of God, who indeed intercedes for us? Who shall separate us from the love of Christ? Shall tribulation, or distress, or persecution, or famine, or nakedness, or peril, or sword? As it is written, "For thy sake we are being killed all the day long; we are regarded as sheep to be slaughtered." No, in all these things we are more than conquerors through him who loved us. For I am sure that neither death, nor life, nor angels, nor principalities, nor things present, nor things to come, nor powers, nor height, nor depth, nor anything else in all creation, will be able to separate us from the love of God in Christ Jesus our Lord.

## **1 CORINTHIANS 15. 3-20**

I delivered to you as of first importance what I also received, that Christ died for our sins in accordance with the scriptures, that he was buried, that he was raised on the third day in accordance with the scriptures, and that he appeared to Cephas, then to the twelve. Then he appeared to more than five hundred brethren at one time, most of whom are still alive, though some have fallen asleep. Then he appeared to James, then to all the apostles. Last of all, as to one untimely born, he appeared also to me. For I am the least of the apostles, unfit to be called an apostle, because I persecuted the church of God. But by the grace of God I am what I am, and his grace toward me was not in vain. On the contrary, I worked harder than any of them, though it was not I, but the grace of God which is with me. Whether then it was I or they, so we preach and so you believed.

Yn awr, os pregethir Crist, ei fod wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw, sut y mae rhai yn eich plith yn dweud nad oes atgyfodiad y meirw? Os nad oes atgyfodiad y meirw, nid yw Crist wedi ei gyfodi chwaith. Ac os nad yw Crist wedi ei gyfodi, gwagedd yw ein pregethu ni, a gwagedd hefyd yw eich ffydd chwi. Ceir ein bod yn dystion twyllodrus i Dduw, am ein bod wedi tystiolaethu iddo gyfodi Crist - ac yntau heb wneud hynny, os yw'n wir nad yw'r meirw yn cael eu cyfodi. Oherwydd os nad yw'r meirw yn cael eu cyfodi, nid yw Crist wedi ei gyfodi chwaith. Ac os nad yw Crist wedi ei gyfodi, ofer yw eich ffydd, ac yn eich pechodau yr ydych o hyd. Y mae'n dilyn hefyd fod y rhai a hunodd yng Nghrist wedi darfod amdanynt. Os ar gyfer y bywyd hwn yn unig yr ydym wedi gobeithio yng Nghrist, nyni yw'r mwyaf truenus ymhlith dynion. Ond y gwir yw fod Crist wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw, yn flaenffwrth y rhai sydd wedi huno.

## **1 CORINTHIAID 15. 20-26 a 35-58**

Y gwir yw fod Crist wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw, yn flaenffwrth y rhai sydd wedi huno. Gan mai trwy ddyn y daeth marwolaeth, trwy ddyn hefyd y daeth atgyfodiad y meirw. Oherwydd fel y mae pawb yn marw yn Adda, felly hefyd y gwneir pawb yn fyw yng Nghrist. Ond pob un yn ei briod drefn: Crist y blaenffwrth, ac yna, ar ei ddyfodiad ef, y rhai sy'n eiddo Crist. Yna daw'r diwedd, pan fydd Crist yn traddodi'r deyrnas i Dduw'r Tad, ar ôl iddo ddileu pob tywysogaeth, a phob awdurdod a gallu. Oherwydd y mae'n rhaid iddo ef ddal i deyrnasu nes iddo osod pob gelyn dan ei draed. Y gelyn olaf a ddileir yw angau.

Ond bydd rhywun yn dweud: "Pa fodd y mae'r meirw yn cael eu cyfodi? A pha fath gorff y byddant yn dod?" Ddyn ynfyd, beth am yr had yr wyt ti yn ei hau? Ni roddir bywyd iddo heb iddo farw yn gyntaf. A'r hyn yr wyt yn ei hau, nid y corff a fydd ydyw, ond gronyn noeth, o wenith efallai, neu o rywrawn arall. Ond Duw, yn ôl ei ewyllys ei hun, sydd yn rhoi corff iddo, i bob un o'r hadau ei gorff ei hun. Oherwydd nid yr un cnawd yw pob cnawd, ond un peth yw cnawd dynion, peth arall yw cnawd anifeiliaid, peth arall yw cnawd adar, a pheth arall yw cnawd pysgod. Y mae hefyd gyrff nefol a chyrff daearol, ond un peth yw gogoniant y rhai nefol, a pheth gwahanol yw gogoniant y rhai daearol. Un peth yw gogoniant yr haul, a pheth arall yw gogoniant y lloer, a pheth arall yw gogoniant y sêr. Yn wir, y mae rhagor rhwng seren a seren mewn gogoniant.

Now if Christ is preached as raised from the dead, how can some of you say that there is no resurrection of the dead? But if there is no resurrection of the dead, then Christ has not been raised; if Christ has not been raised, then our preaching is in vain and your faith is in vain. We are even found to be misrepresenting God, because we testified of God that he raised Christ, whom he did not raise if it is true that the dead are not raised. If Christ has not been raised, your faith is futile and you are still in your sins. Then those also who have fallen asleep in Christ have perished. If for this life only we have hoped in Christ, we are of all men most to be pitied. But in fact Christ has been raised from the dead, the first fruits of those who have fallen asleep.

### **1 CORINTHIANS 15. 20-26 and 35-38**

Christ has been raised from the dead, the first fruits of those who have fallen asleep. For as by a man came death, by a man has come also the resurrection of the dead. For as in Adam all die, so also in Christ shall all be made alive. But each in his own order: Christ the first fruits, then at his coming those who belong to Christ. Then comes the end, when he delivers the kingdom to God the Father after destroying every rule and every authority and power. For he must reign until he has put all his enemies under his feet. The last enemy to be destroyed is death.

But someone will ask, "How are the dead raised? With what kind of body do they come?" You foolish man! What you sow does not come to life unless it dies. And what you sow is not the body which is to be, but a bare kernel, perhaps of wheat or of some other grain. But God gives it a body as he has chosen, and to each kind of seed its own body. For not all flesh is alike, but there is one kind for men, another for animals, another for birds, and another for fish. There are celestial bodies and there are terrestrial bodies; but the glory of the celestial is one, and the glory of the terrestrial is another. There is one glory of the sun, and another glory of the moon, and another glory of the stars; for star differs from star in glory.

Felly hefyd y bydd, gyda golwg ar atgyfodiad y meirw. Heuir mewn llygredigaeth, cyfodir mewn anllygredigaeth. Heuir mewn gwaradwydd, cyfodir mewn gogoniant. Heuir mewn gwendid, cyfodir mewn nerth. Yn gorff anianol yr heuir ef, yn gorff ysbrydol y cyfodir ef. Os oes corff anianol, y mae hefyd gorff ysbrydol. Felly, yn wir, y mae'n ysgrifenedig: "Daeth y dyn cyntaf, Adda, yn fod byw." Ond daeth yr Adda diwethaf yn ysbryd sydd yn rhoi bywyd. Eithr nid yr ysbrydol sy'n dod gyntaf, ond yr anianol, ac yna'r ysbrydol. Y dyn cyntaf, o'r ddaear y mae, a llwch ydyw; ond yr ail ddyn, o'r nef y mae. Y mae'r rhai sydd o'r llwch yn debyg i'r dyn o'r llwch, ac y mae'r rhai sydd o'r nef yn debyg i'r dyn o'r nef. Ac fel y bu delw'r dyn o'r llwch arnom, felly hefyd y bydd delw'r dyn o'r nef arnom.

Hyn yr wyf yn ei olygu, frodyr: ni all cig a gwaed etifeddu teyrnas Dduw, ac ni all llygredigaeth etifeddu anllygredigaeth. Clywch! Yr wyf yn mynegi dirgelwch i chwi: nid ydym i gyd i huno, ond yr ydym i gyd i gael ein newid, mewn eiliad, ar drawiad amrant, ar ganiad yr utgorn diwethaf. Oherwydd bydd yr utgorn yn seinio, y meirw yn cael eu cyfodi yn anllygredig, a ninnau'n cael ein newid. Oherwydd rhaid i'r llygradwy hwn wisgo anllygredigaeth, ac i'r marwol hwn wisgo anfarwoldeb. A phan fydd y llygradwy hwn wedi gwisgo anllygredigaeth, a'r marwol hwn wedi gwisgo anfarwoldeb, yna bydd y geiriau hyn sydd yn ysgrifenedig yn dod yn wir: "Llyncwyd angau mewn buddugoliaeth. O angau, lle mae dy fuddugoliaeth? O angau, lle mae dy golyn?" Colyn angau yw pechod, a grym pechod yw'r Gyfraith. Ond i Dduw y bo'r diolch, yr hwn sy'n rhoi'r fuddugoliaeth i ni trwy ein Harglwydd Iesu Grist. Felly, fy mrodyr annwyl, byddwch yn gadarn a diysgog, yn helaeth bob amser yng ngwaith yr Arglwydd, gan eich bod yn gwybod nad yw eich llafur yn yr Arglwydd yn ofer.

## **DATGUDDIAD 20. 11-13**

Gwelais orsedd fawr wen a'r Un oedd yn eistedd arni, hwnnw y ffoesai'r ddaear a'r nef o'i wydd a gadael eu lle yn wag. Gwelais y meirw, y rhai mawr a'r rhai bach, yn sefyll o flaen yr orsedd; ac agorwyd llyfrau. Yna agorwyd llyfr arall, sef llyfr y bywyd; a barnwyd y meirw ar sail yr hyn oedd yn ysgrifenedig yn y llyfrau, yn ôl eu gweithredoedd. Ildiodd y môr y meirw oedd ynddo, ac ildiodd Marwolaeth a Thrigfan y Meirw y rhai oedd ynddynt hwy, ac fe'u barnwyd, pob un yn ôl ei weithredoedd.

So it is with the resurrection of the dead. What is sown is perishable, what is raised is imperishable. It is sown in dishonour, it is raised in glory. It is sown in weakness, it is raised in power. It is sown a physical body, it is raised a spiritual body. If there is a physical body, there is also a spiritual body. Thus it is written, "The first man Adam became a living being"; the last Adam became a life-giving spirit. But it is not the spiritual which is first but the physical and then the spiritual. The first man was from the earth, a man of dust; the second man is from heaven. As was the man of dust, so are those who are of the dust; and as is the man of heaven, so are those who are of heaven. Just as we have borne the image of the man of dust, we shall also bear the image of the man of heaven. I tell you this, brethren: flesh and blood cannot inherit the kingdom of God, nor does the perishable inherit the imperishable.

Lo! I tell you a mystery. We shall not all sleep, but we shall all be changed, in a moment, in the twinkling of an eye, at the last trumpet. For the trumpet will sound, and the dead will be raised imperishable, and we shall be changed. For this perishable nature must put on the imperishable, and this mortal nature must put on immortality. When the perishable puts on the imperishable, and the mortal puts on immortality, then shall come to pass the saying that is written: "Death is swallowed up in victory." "O death, where is thy victory? O death, where is thy sting?" The sting of death is sin, and the power of sin is the law. But thanks be to God, who gives us the victory through our Lord Jesus Christ. Therefore, my beloved brethren, be steadfast, immovable, always abounding in the work of the Lord, knowing that in the Lord your labour is not in vain.

### **REVELATION 20. 11-13**

Then I saw a great white throne and him who sat upon it; from his presence earth and sky fled away, and no place was found for them. And I saw the dead, great and small, standing before the throne, and books were opened. Also another book was opened, which is the book of life. and the dead were judged by what was written in the books, by what they had done. And the sea gave up the dead in it, Death and Hades gave up the dead in them, and all were judged by what they had done.